# Y Rhaglen Tai Arloesol
# a Dulliau Adeiladu Modern

## Cwestiynau Cyffredin – 2020-21

### Pryd mae'r ffenestr ymgeisio ar agor?

Bydd y cyfnod ymgeisio yn agor yn swyddogol ar 11 Awst gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gwneud datganiad cyhoeddus. Ar yr un diwrnod, caiff y Canllawiau a’r Fanyleb Dechnegol eu rhoi ar dudalennau gwe Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru. Ond bydd yr holl ddogfennau ar gyfer dechrau'r broses ymgeisio ar gael drwy e-bost ar ôl y digwyddiad lansio ar 30 Gorffennaf.

### Pryd bydd y ffenestr ymgeisio yn cau?

Bydd y cyfnod ymgeisio yn dod i ben ar 25 Medi am hanner nos. Ni fydd ceisiadau sy'n cyrraedd mewnflwch y Rhaglen Tai Arloesol ar ôl yr amser hwnnw’n cael eu hasesu gan dîm y Rhaglen Tai Arloesol na'r Panel Asesu Annibynnol.

### Pwy sy'n penderfynu pa gynlluniau sydd ar y rhestr fer?

Bydd pob cais a gyflwynir cyn y dyddiad cau yn cael ei asesu a'i sgorio yn erbyn meini prawf y Fanyleb Dechnegol gan Banel Asesu Annibynnol. Bydd y Panel Asesu Annibynnol yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru mewn perthynas â’r cynlluniau i'w cefnogi.

### Pryd byddwn ni'n gwybod a fyddwn ni'n llwyddiannus?

Bydd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi'r cynlluniau ar y rhestr fer erbyn diwedd mis Hydref, tua phum wythnos ar ôl i'r cyfnod ymgeisio gau.

### A oes unrhyw hyblygrwydd ynghylch amserlen gofynion y grant?

Rydyn ni’n ystyried cynnig rhywfaint o hyblygrwydd o ran gofynion y grant o ystyried y sefyllfa mewn perthynas â Covid-19. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i gynlluniau llwyddiannus ddangos eu bod wedi sicrhau’r tir, y cynlluniau, ac wedi ymrwymo i gontract adeiladu sydd wedi'i lofnodi, erbyn 5 Mawrth 2021 i sicrhau cyllid ar hyn o bryd.

## Pa fathau o Ddulliau Adeiladu Modern y byddwch chi'n ceisio eu cefnogi?

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ffafrio un math o ddull adeiladu modern yn fwy nag un arall. Byddwn ni'n defnyddio fframwaith diffiniadau o Ddulliau Adeiladu Modern y DU i ddiffinio Dulliau Adeiladu Modern, wrth inni roi sylw arbennig i Ddulliau Adeiladu Modern eleni. Rydyn ni'n annog pob math o arloesi ym maes adeiladu i gyflenwi ein tai cymdeithasol. Ac rydyn ni'n awyddus i weld cadwyn gyflenwi gynhenid Cymru yn ymateb i gyfleoedd cyflenwyr ac yn gwireddu manteision economaidd a chymdeithasol y buddsoddiad a wnaed o dan y Rhaglen Tai Arloesol yng Nghymru.

## Beth yw'r diffiniad o 'gartrefi fforddiadwy'?

Yng Nghymru, diffinnir cartrefi 'fforddiadwy a chymdeithasol' yn unol â Nodyn Cyngor Technegol Cynllunio (TAN) 2.

## Pryd byddwch chi'n gwybod beth yw telerau ac amodau elfen benthyciad y Rhaglen Tai Arloesol?

Gallwch weld canllawiau cyffredinol ynghylch cyllid y benthyciad yn Atodiad A. Bydd telerau ac amodau penodol y benthyciad yn ffurfio rhan o gytundeb cyfreithiol y benthyciad rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd mewn perthynas â manylion cynllun y Rhaglen Tai Arloesol a'r cais. Hyd hwyaf cyfnod y benthyciad yw 20 mlynedd, ac mae hwnnw yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru. Darperir benthyciadau ar gyfer cyflenwi cartrefi cymdeithasol yn unig. Bydd cyfradd llog o 0% (sero) yn gymwys, ac mae'r benthyciadau'n gydnaws â Chymorth Gwladwriaethol o dan fecanwaith Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol (SGEI).

## Fel Awdurdod Lleol, a allwn ni wneud cais am elfen benthyciad y Rhaglen Tai Arloesol?

Na allwch. Dim ond i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ôl canllawiau Trysorlys Llywodraeth y DU y mae'r cynllun benthyciadau ar agor, a rhoddir benthyciadau yn uniongyrchol i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu bartner arweiniol y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

## Fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a allwn ni wneud cais am grant a benthyciad y Rhaglen Tai Arloesol?

Gallwch, gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wneud cais am grant cyfalaf a benthyciad y Rhaglen Tai Arloesol. Fodd bynnag, gan ein bod yn disgwyl i'r grant a'r benthyciad gael eu gordanysgrifio, gofynnwn i ymgeiswyr ystyried gwneud cais am y lleiafswm o gymorth ariannol sydd ei angen i wneud y prosiect yn bosibl. Bydd hynny'n ein galluogi i gefnogi'r nifer mwyaf o gynlluniau drwy'r rhaglen.

## A all y sector preifat neu'r trydydd sector wneud cais am gyllid y Rhaglen Tai Arloesol?

Ar gyfer eleni, dim ond Landlordiaid Cymdeithasol (Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) fydd yn gweithredu fel ymgeiswyr arweiniol y Rhaglen Tai Arloesol. Fodd bynnag, rydyn ni'n annog bod Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid yn y trydydd sector yn gweithio ar y cyd i ddarparu mwy o gartrefi gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern, a darparu mwy o gartrefi o ansawdd uchel ar raddfa fawr ac yn ddi-oed yng Nghymru.

**Beth yw capasiti cadwyn gyflenwi Dulliau Adeiladu Modern yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol? A oes digon o gyflenwad i ateb y galw arfaethedig yn y dyfodol?**

Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas agos â chanolfan bresennol cadwyn gyflenwi Dulliau Adeiladu Modern yng Nghymru. Maen nhw wedi rhoi gwybod eu bod yn brofiadol, yn fedrus ac yn barod i ymateb i'r galw presennol am dai cymdeithasol. A byddan nhw'n ystyried ehangu'r busnes i fodloni'r cynnydd yn y galw am Ddulliau Adeiladu Modern yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru, drwy ei phecynnau cymorth i fusnesau, yn ceisio helpu busnesau i ehangu a chreu swyddi yn unol â'n Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

**Gofynnwyd i ni ddefnyddio pren o Gymru. A oes digon o gyflenwad, ac ar gyfradd sy'n ei gwneud yn ymarferol?**

Yn ystod cyfnod clo Covid-19, mae'r galw am bren gan broseswyr yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae hynny wedi arwain at gyflenwad cyfyngedig o bren gradd adeiladu a chynnydd cysylltiedig yn y pris. Rydyn ni o'r farn mai sefyllfa dros dro yw hon ac yn y tymor hwy y bydd digon o gyflenwad o bren gradd adeiladu o Gymru, ac y bydd y pris yn gostwng.

Fodd bynnag, os yw'r defnydd o bren gradd adeiladu o Gymru yn profi'n heriol ar gyfer cynllun, dylid defnyddio dewisiadau eraill sy'n gallu cefnogi'r Rhaglen Tai Arloesol.